

BLAENORIAETH 3 CGE: Cyrhaeddiad a Diweithdra ymysg leuenctid

Amcanion Penodol B3 CGE

Targedu'r rhai sydd mewn risg o ddod yn NEET

Wales - Cyflawni drwy Brofiad Gwaith

Ar gyfer myfyrwyr Addysg Uwch sy'n wynebu rhwystrau wrth gael mynediad at Addysg Uwch neu brofiad gwaith ac sy'n mewn risg o ddod yn NEET ar ôl graddio. Yn darparu cymorth cyflogadwyedd a phrofiad gwaith pwrpasol.

Gwaith Dan Hyfforddiant

Yn darparu dysgeidiaeth yn seiliedig ar alwedigaeth ar gyfer pobl 16 i 18 oed sydd mewn risg o ddod yn NEET. Eu galluogi i ennill y sgiliau sydd eu hangen i ddod o hyd i swydd neu symud ymlaen i addysg bellach/prentisiaethau

TRAC 11-24

Cefnogi pobl ifanc 11-24 oed nad ydynt yn ymgysylltu ag addysg ac mewn risg o ddod yn NEET.

Targedu'r rhai sydd eisoes yn NEET

ADTRAC

Cefnogi rhai 16-24 oed sy'n NEET i mewn i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Sicrhau fod pobl ifanc yn cael y gefnogaeth holistaidd briodol er mwyn cyflawni'r sgiliau a chymwysterau gofynnol i gael gwaith cynaliadwy.

Cronfa Gynhwysiant Gweithredol

Grantiau ar gyfer prosiectau ymgysylltu / cyflogaeth â chymorth er mwyn helpu pobl 16-24 NEET sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad lafur gyda nifer o rwystrau i gyflogaeth.

Cymru Iach ar Waith - Gwasanaeth Allan o Waith - Cyfle Cymru

Cymorth cyflogaeth arbenigol a mentora cymheiriaid ar gyfer pobl ifanc NEET 16-24 oed gyda phroblemau camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl.

Twf Swyddi Cymru

Rhoi profiad gwaith â thâl i bobl ifanc 16-14 oed am 6 mis, isafswm cyflog rhwng 25 i 40 awr.

Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE)

Galluogi rhieni economaidd anweithgar (16 - 24 oed) i baratoi ar gyfer, a chael mynediad at gyfleoedd cyflogaeth a goresgyn rhwystrau gofal plant. Ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.

Cymunedau am Waith

Cymorth mentora a chyflogaeth i helpu pobl NEET 16-24 oed o'r cymunedau mwyaf amddifad i mewn i waith.

Codi dyheadau gyda STEM

Technocamps

Cefnogi uwchsgilio digidol drwy weithio gydag ysgolion i astudio Cyfrifiadureg. Galluogi disgyblion i adeiladu ar eu gwybodaeth a brwdfrydedd presennol ar gyfer TG.

STEM Gogledd

Cyfoethogi a hyrwyddo cynnig cwricwlwm pynciau STEM craidd o fewn ysgolion ac addysg bellach.

Trio Sci Cymru

Integreiddio a chynyddu'r ystod eang o weithgareddau ymgysylltu STEM sy'n digwydd yng Nghymru (yn arbennig yn y tri phwnc gwyddoniaeth - bioleg, cemeg a ffiseg)

STEM 2

Cynyddu'r nifer sydd yn astudio pynciau STEM a lefelau cyrhaeddiad mewn pynciau STEM ymysg y rhai 11-19 oed.